

Arwyr – CA5

Tasg 8: Cymharu cerddi

Mae Llywelyn ein Llyw Olaf wedi bod yn arwr i sawl bardd.

Tasg 1

Beth allwch chi ei ddarganfod am fywyd Llywelyn ein Llyw Olaf, ac yn arbennig am ei farwolaeth ym 1282?

Tasg 2

Cymharwch y cerddi hyn o waith tri bardd gwahanol. Gallwch gymharu'r tair, neu gymharu unrhyw ddwy o'r tair.

<p>Y Llyw Olaf Gwyn Thomas (<i>Wmgawa</i>, tud 24)</p> <p>Ger y dŵr, ger afon Irfon Ar ddydd o Ragfyr oer Y lladdwyd ein Llywelyn, Ein llyw, ein llew, ein lloer.</p> <p>Ger y dŵr, ger afon Irfon Un gaeaf daeth yr awr Y trawyd y tywysog, Y bwriwyd Cymru i'r llawr</p> <p>Am y dŵr, am afon Irfon A'r cwmp mae'r cof yn ir; Mae bedd nad â yn angof Yn naear las Cwm-hir.</p>	<p>Cilmeri Gerallt Lloyd Owen</p> <p>Fin nos fan hyn Lladdwyd Llywelyn. Fyth nid anghofiwn hyn.</p> <p>Y nant a welaf fan hyn A welodd Llywelyn, Camodd ar y cerrig hyn.</p> <p>Fin nos, fan hyn O'r golwg nesâi'r gelyn. Fe wnaed y cyfan fan hyn.</p> <p>Rwyf fi'n awr fan hyn Lle bu'i wallt ar welltyn, A dafnau o'i waed fan hyn.</p> <p>Fan hyn yw ein cof ni, Fan hyn sy'n anadl inni, Fan hyn gynnau fu'n geni.</p>	<p>'11.12.82' Iwan Llwyd (<i>Gwasg Taf</i>) Daeth saith canrif ynghyd yn oerfel Cilmeri a'r dail yn difaru atgofion:</p> <p>saith canrif o sôn am orchestion hen oesau, a'r dydd yn gymylau gwelwon:</p> <p>saith canrif o sefyll ar erchwyn y dibyn, a'n traed bron fferru'n eu hunfan:</p> <p>saith canrif o gyfrif colledion yn dawel ac edrych i'r gorwel yn ddistaw:</p> <p>aeth saith canrif yn ddistaw ger carreg Cilmeri, a'r awel ar rewi llif Irfon...</p> <p>... yna bloeddiodd y baban a thoddi'r gaeafddydd, a'r awel ar rewi llif Irfon...</p> <p>a chwalu'r distawrwydd, a her canrif newydd yn nychryn ei waedd.</p>
---	---	--